



EIN DULL GWEITHREDU

HYDREF 2019

Rhagair y Cadeirydd

Mae Prif Weinidog Cymru wedi gofyn i'r Comisiwn hwn ystyried yr holl broblemau sy'n gysylltiedig â thagfeydd ar yr M4 yn Ne-ddwyrain Cymru ac argymell mesurau posibl i fynd i'r afael â nhw.

Rwy'n cydnabod yn llwyr faint a phwysigrwydd y dasg hon, hanes ystyriaethau blaenorol a theimladau cryf y rhai sydd â diddordeb yn y mater.

Darparodd Gweinidogion Cymru Gylch Gorchwyl ar gyfer y Comisiwn ym mis Mehefin 2019. Rwyf wedi ffurfio tîm gwych o Gomisiynwyr ac mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r dull gweithredu y byddwn yn ei fabwysiadu wrth baratoi ein hargymhellion

Yr Arglwydd Burns

Cyflwyniad

1. Mae Gweinidogion Cymru wedi gofyn i'r Comisiwn ystyried yr holl broblemau sy'n gysylltiedig â thagfeydd ar yr M4 yn Ne-ddwyrain Cymru ac argymhell ymyriadau i fynd i'r afael â nhw. Nodir y Cylch Gorchwyl yn Atodiad A.

2. Cred y Comisiwn fod trafndiaeth yn rhan hollbwysig o gymdeithas ac economi weithredol sy'n ffynnu – gan alluogi pobl i gael gafael ar wasanaethau ac i fyw bywydau ehangach. Mae'r rhwydwaith trafndiaeth yn hwyluso rhai o'r agweddau pwysicaf ar ein bywyd, p'un a ydym yn teithio i'r gwaith, i'r ysgol, i'r ysbyty neu i leoliad hamdden.

3. Mae'n amlwg bod problem ddifrifol o ran trafndiaeth sy'n effeithio ar fywyd pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn teithio yn Ne-ddwyrain Cymru. O ystyried cymhlethdod y broblem, effaith y ffordd bresennol ac effeithiau datrysiadau posibl, rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r broblem o safbwynt eang.

4. Ein gweledigaeth fel Comisiwn yw argymhell cyfres o fesurau a fydd yn lleihau tagfeydd mewn ffordd gynaliadwy sy'n cefnogi llesiant ehangach pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn teithio yn yr ardal.

Aelodau

5. Mae'r aelodau canlynol wedi'u penodi i'r Comisiwn:

- Yr Arglwydd Burns (Cadeirydd)
- James Davies
- Stephen Gifford
- Jen Heal
- Peter Jones
- Beverly Owen (Cynrychiolydd Casnewydd)
- Lynn Sloman
- Elaine Seagriff

6. Mae cynnwys cynrychiolydd yn enwedig ar gyfer Casnewydd yn adlewyrchu'r effaith benodol y mae'r problemau'n ei chael ar ddinas Casnewydd. Bydd gan y Cynrychiolydd dros Gasnewydd fynediad at holl waith y Comisiwn. Bydd yn cymryd rhan mewn trafodaethau ond ni fydd yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

7. Cefnogir y Comisiwn gan ysgrifenyddiaeth fach o weision sifil Llywodraeth Cymru, a fydd yn cael eu harwain gan Uwch Was Sifil, a'u rheoli ar wahân i Adran Drafndiaeth Llywodraeth Cymru.

Egwyddorion

8. Mae'r Comisiwn wedi cytuno ar yr egwyddorion canlynol i lywio ei waith. Byddwn yn gwneud y canlynol:

- mynd i'r afael â'r broblem o'r newydd, gan ystyried yr hyn sydd wrth wraidd y tagfeydd;
- seilio ein gwaith ar dystiolaeth;
- ystyried opsiynau sy'n cynnwys pob math o drafndiaeth, gan gynnwys integreiddio rhyngddynt
- peidio â chyfyngu ein hunain i gasgliadau astudiaethau blaenorol o'r broblem;
- peidio â gwerthuso costau na manteision rhan newydd o'r draffordd i'r de o Gasnewydd (prosiect 'Llwybr Du' yr M4), na chymharu mesurau â'r prosiect hwnnw;
- cynnwys ystod amrywiol o bobl yn ein gwaith, gan gynnwys y rhai sy'n byw, yn gweithio neu'n cymudo yn yr ardal, neu sydd â diddordeb ynddi;
- gweithio mewn modd cydweithredol a thryloyw, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith.

Strwythur ein gwaith

9. Bydd y Comisiwn yn strwythuro ei waith ar sail chwe cham eang:

- I. Deall y broblem
- II. Pennu amcanion
- III. Pennu llinell sylfaen
- IV. Nodi opsiynau
- V. Asesu opsiynau
- VI. Gwneud argymhellion

10. Mae'r dull gweithredu hwn yn gyson â phroses Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru Llywodraeth Cymru (WelTAG). Bydd hefyd yn gyson â gwaith y Comisiwn ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a chanllawiau Trysorlys y DU ar Achosion Busnes.

Cam I: deall y broblem

11. Byddwn yn dechrau drwy gynnal archwiliad trylwyr ac eang o dagfeydd ar yr M4 yn Ne-ddwyrain Cymru, gan gynnwys i ba raddau y mae tagfeydd yn deillio o broblemau ehangach. Nod y Comisiwn yw deall union natur y broblem a'r hyn sy'n ei hachosi, sy'n debygol o ymestyn i broblemau y tu hwnt i drafnidiaeth.

12. Bydd y broses hon yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae llawer o dystiolaeth yn bodoli eisoes; mae angen iddi gael ei chasglu ynghyd, ei dadansoddi a'i chrynhai. Byddwn hefyd yn nodi cyfleoedd ar gyfer tystiolaeth ymchwil newydd, ac mae'n bosibl y byddwn yn ei chomisiynu.

13. Byddwn yn cynnwys rhanddeiliaid er mwyn cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth. Mae hyn yn ymestyn i gyrff cynrychioliadol ac aelodau o'r cyhoedd. Yn benodol, rydym am ddysgu am brofiadau pobl sy'n teithio'n rheolaidd yn yr ardal, a gwrandao arnynt.

14. Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd tystiolaeth ac adroddiadau ar gael i'r cyhoedd.

Cam II: pennu amcanion

15. Bydd Cam I yn galluogi'r Comisiwn i nodi'r broblem fel y mae'n ei deall. Yna, byddwn yn llunio amcanion y credwn y dylai ymyriadau posibl i leihau tagfeydd eu cyflawni.

16. Wrth wneud hynny, byddwn yn rhoi cryn sylw i'r angen i wella effeithlonrwydd ac ansawdd y system drafnidiaeth yn Ne-ddwyrain Cymru. O ystyried cyd-destun Cymru, bydd yn bwysig bod ein hamcanion yn adlewyrchu egwyddorion datblygu cynaliadwy.

Cam III: pennu llinell sylfaen

17. Caiff opsiynau eu hasesu o ran eu cyfraniad at liniaru'r problemau a nodwyd gennym. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn pennu llinell sylfaen glir am y sefyllfa o ran traffig nawr ac yn y dyfodol.

18. Byddwn yn ystyried yr hyn a allai newid y llinell sylfaen honno yn y dyfodol, er enghraifft technoleg newydd, newidiadau o ran y ffordd rydym yn teithio, ymatebion i'r newid yn yr hinsawdd a newidiadau demograffig.

19. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd y Comisiwn yn rhoi'r cyfle i Lywodraeth Cymru bennu pa bolisiau a phrosiectau arfaethedig y dylai'r Comisiwn ragdybio eu bod yn rhan o'r llinell sylfaen.

Cam IV: paratoi rhestr hir

20. Caiff rhestr hir o fesurau posibl ei pharatoi. Caiff opsiynau ar gyfer pob math o drafnidiaeth eu hystyried, gan gynnwys teithio llesol, teithio ar y ffordd, bysiau a threnau.

21. Mae'n bosibl bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried rhai o'r opsiynau yn y gorffennol. Os felly, byddwn yn asesu pob mesur o'r newydd yn annibynnol.

22. Gan fyfyrto ar ein Cylch Gorchwyl eang, efallai na fydd yr opsiynau'n gyfyngedig i fesurau trafnidiaeth. Fodd bynnag, mae'n rhaid bod ganddynt gysylltiad ystyrlon â'r problemau a nodwyd.

23. Caiff ymyriadau eu costio'n fras er mwyn galluogi'r Comisiwn i ystyried gwerth am arian. Mae hyn yn fater gwahanol i fforddiadwyedd, a fydd yn fater i Weinidogion Cymru os byddant yn penderfynu mynd ar drywydd un o'r opsiynau.

24. Yng ngoleuni penderfyniad Prif Weinidog Cymru i beidio â bwrw ymlaen â Phrosiect 'Llwybr Du' yr M4, ni fydd y Comisiwn yn ystyried opsiynau ar gyfer gosod rhan newydd o drafforth i'r de o Gasnewydd.

Cam V: asesu opsiynau

25. Caiff y rhestr hir o fesurau eu hasesu ar sail eu heffaith a'u gallu i gyflawni'r amcanion.

26. Rydym yn disgwyl y bydd nifer o gysylltiadau rhwng rhai o'r opsiynau. Bydd angen i'r cysylltiadau hyn gael eu deall a'u hystyried. Rydym hefyd yn bwriadu profi cadernid y pecyn mewn sefyllfaoedd gwahanol a allai godi yn y dyfodol.

Cam VI: gwneud argymhellion

27. Bydd y broses asesu'n galluogi'r Comisiwn i wneud argymhellion clir ac wedi'u strwythuro i Weinidogion Cymru mewn adroddiad terfynol.

28. Rydym yn rhagweld y caiff pecyn o fesurau ei argymhell. Bydd yn ystyried yr argymhellion yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Er mwyn helpu i roi'r mesurau ar waith, rydym yn disgwyl y byddwn yn gwneud argymhellion ar faterion ehangach fel polisi, cyllid a llywodraethu (gan gynnwys materion yn ymwneud â'r setliad datganoli).

29. Yn gyffredinol, ein nod yw argymhell cyfres o fesurau a fydd yn lleihau tagfeydd mewn ffordd gynaliadwy sy'n cefnogi llesiant ehangach pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn teithio yn yr ardal.

Cwmpas daearyddol

30. Er mai gorchwyl y Comisiwn yw ystyried De-ddwyrain Cymru, bydd yn ystyried ardal yr astudiaeth yn gyffredinol ac yn ystyried i ba raddau y mae teithiau sy'n dechrau neu'n gorffen y tu allan i'r rhanbarth yn effeithio arni. Mae hyn yn gyson ag awydd y Comisiwn i ystyried y problemau mewn modd cyfannol.

31. Rydym yn sylweddoli bod problemau difrifol iawn yn ardal Casnewydd a byddwn yn rhoi sylw dyledus i'r rhain.

Ymgysylltu â rhanddeiliad

32. Mae rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd wedi mynegi amrywiaeth eang o safbwyntiau ar y problemau dros nifer o flynyddoedd. Ar gamau gwahanol, mae nifer wedi bod yn rhan o wahanol ddigwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghoriadau.

33. Mae'r Comisiwn yn bwriadu ymwneud yn agos â rhanddeiliaid yn ei waith. Fel rhan o'r gwaith ymgysylltu hwn, un o'n blaenoriaethau yw deall y dewisiadau y mae pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn teithio yn Ne-ddwyrain Cymru yn eu gwneud o ran trafnidiaeth, yn enwedig defnyddwyr yr M4 o amgylch Casnewydd.

34. Yn gyffredinol, bydd y Comisiwn yn cyfathrebu drwy'r dulliau canlynol:

- trafodaethau â'r cyhoedd
- gweithdai a chyfarfodydd â rhanddeiliaid
- y cyfryngau cymdeithasol
- adroddiadau a llythyrau i Weinidogion Cymru

35. Er nad yw'r Comisiwn yn bwriadu gwneud cais ffurfiol am dystiolaeth, bydd yn ystyried syniadau y mae pobl neu sefydliadau yn dymuno eu cyflwyno.

Cyflwyno adroddiadau

36. Ein nod yw cyflwyno adroddiad cynnydd erbyn diwedd y flwyddyn hon, adroddiad interim yn ystod gwanwyn 2020 ac adroddiad terfynol tua diwedd 2020. Daw gwaith y Comisiwn i ben yn fuan wedi iddo gyhoeddi ei adroddiad terfynol.

Argymhellion carlam

37. Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru gyfres o fesurau i'w rhoi ar waith ar unwaith. Bydd y Comisiwn yn gweithio ar y sail bod y mesurau hyn yn cael eu rhoi ar waith.

38. Rhan o dasg y Comisiwn yw gwneud argymhellion carlam i'w gweithredu'n gyflym. Felly, byddwn yn cynnal adolygiad cyflym o'r opsiynau y gellid eu cyflawni'n gyflym yn ymarferol. Byddwn yn rhoi diweddariad ar y gwaith hwn erbyn diwedd y flwyddyn.

39. Wrth wneud hynny, bydd angen inni sicrhau na fydd unrhyw argymhellion carlam a wneir yn rhagfarnu nac yn effeithio'n andwyol ar ein hargymhellion terfynol. Gall hyn gyfyngu ar yr hyn y gellir ei argymell ar y cam cynnar hwn.

40. O ystyried yr amserlen, a'r gwaith y mae angen ei wneud ar gyfer y camau eraill a ddisgrifir uchod, byddwn yn ystyried hyn ochr yn ochr â'n prif waith, a ddisgrifir uchod.

Annibyniaeth ac atebolrwydd

41. Mae'r Comisiwn yn weithredol annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

42. Drwy ei Gadeirydd, mae'r Comisiwn yn atebol i Weinidogion Cymru am ei berfformiad. Mae'r Comisiwn hefyd yn croesawu gwaith craffu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys ei bwyllgorau.

Manylion cyswllt

43. Gellir cysylltu â'r Comisiwn drwy ei Ysgrifenyddiaeth yn:
SEWTransportcommission@gov.wales

44. Bydd diweddariadau ar y Comisiwn ar gael drwy:
<https://gov.wales/south-east-wales-transport-commission>

@SEWTCCommission

Y Cylch Gorchwyl a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ym mis Mehefin 2019

Bydd y Comisiwn yn ystyried y problemau, y cyfleoedd, yr heriau a'r amcanion ar gyfer mynd i'r afael â thagfeydd ar yr M4 yn Ne-ddwyrain Cymru, ac yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar gyfres o ddatrysiadau amgen yng ngoleuni datganiad Prif Weinidog Cymru ar 4 Mehefin na ddylid mynd ar drywydd y 'Llwybr Du'.

Bydd y Comisiwn yn ystyried barn pob rhanddeiliad, gan gynnwys Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, grwpiau busnes, partneriaid cymdeithasol, grwpiau o ddefnyddwyr trafnidiaeth, cynrychiolwyr gwleidyddol lleol a chenedlaethol ac, wrth gwrs, y cyhoedd.

Bydd y Comisiwn yn ystyried anghenion y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol, gan ystyried problemau uniongyrchol a thueddiadau yn y dyfodol, er enghraifft effaith tanwyddau amgen, a cherbydau cysylltiedig ac awtonomaidd.

Bydd y Comisiwn yn ystyried adroddiad y Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd a materion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol eraill, gan gynnwys ansawdd aer.

Bydd y Comisiwn yn ystyried y materion ymddygiadol sy'n sail i dwf cynyddol trafnidiaeth ar y ffyrdd yng Nghymru, a'r modd y gallai datrysiadau ymateb i'r ffactorau hynny.

Bydd y Comisiwn yn rhoi cyngor ar ymyriadau arloesol a chyllid. Gall ystyried unrhyw faterion, gan gynnwys llywodraethu, costau, cyllido, gwaith cynllunio a gwaith rheoli rhaglen/prosiect, ac argymell gwelliannau i brosesau statudol.

Bydd gan y Comisiwn fynediad at Fodel Cynllunio Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru, ac at y llyfrgell lawn o wybodaeth sydd ar gael ar gyfer Ymchwiliad Cyhoeddus Prosiect yr M4.

Bydd y Comisiwn yn gweithredu'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Caiff ei gefnogi gan Ysgrifenyddiaeth sy'n cynnwys rhai o swyddogion Llywodraeth Cymru a secondeion fel y bo angen.

Bydd y Comisiwn yn cyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau interim, yn ogystal ag argymell ymyriadau ymarferol uniongyrchol, o fewn chwe mis i'w ffurfio.